***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1821

## Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010

## RHAN 3

Diffyg cydymffurfio a gorfodi

**Cosbau diffyg cydymffurfio**

**7.**—(1) Os bydd person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu ymrwymiad trydydd parti, caiff y rheoleiddiwr gyflwyno hysbysiad i'r person hwnnw yn gosod cosb ariannol ("cosb diffyg cydymffurfio") mewn perthynas â'r un tramgwydd ni waeth a gafodd cosb ariannol newidiol ei gosod hefyd neu beidio mewn perthynas â'r tramgwydd hwnnw.

(2) Rhaid i swm y gosb gael ei phennu gan y rheoleiddiwr, a rhaid iddo fod yn ganran o gostau cyflawni gweddill gofynion yr hysbysiad neu'r ymrwymiad trydydd parti.

(3) Rhaid i'r ganran gael ei phennu gan y rheoleiddiwr gan roi sylw i holl amgylchiadau'r achos ac, os yw'n briodol, gall fod yn 100%.

(4) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth am y canlynol—

(a) y seiliau dros osod y gosb diffyg cydymffurfio;

(b) y swm sydd i'w dalu;

(c) sut y mae'n rhaid talu;

(ch) y cyfnod y mae'n rhaid talu ynddo, y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai nag 28 diwrnod;

(d) yr hawl i apelio;

(dd) canlyniadau methu â thalu yn y cyfnod penodedig;

(e) unrhyw amgylchiadau y gallai'r rheoleiddiwr ostwng swm y gosb odanynt.

(5) Os cydymffurfir â gofynion yr hysbysiad cydymffurfio neu'r hysbysiad adfer neu os cyflawnir ymrwymiad trydydd parti cyn yr amser sydd wedi'i bennu ar gyfer talu'r gosb diffyg cydymffurfio, nid yw'r gosb yn daladwy.

(6) Caiff y person y cyflwynir yr hysbysiad sy'n gosod y gosb diffyg cydymffurfio apelio yn ei erbyn.

(7) Y seiliau dros apelio yw—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad wedi'i seilio ar gamgymeriad ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm;

(ch) bod swm y gosb yn afresymol;

(d) unrhyw reswm tebyg arall.